Darganfod | Cyfrannu | Rhannu

Rhoi llwyfan i straeon Cymru a'i phobl yw nod Casgliad y Werin Cymru. Mae'n wefan ddeinamig, ddwyieithog yn llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon cyfareddol am hanes a threftadaeth Cymru a'i phobl.

Lle i ddarganfod, dysgu, cyfrannu a rhannu stori Cymru â'r byd yw Casgliad y Werin Cymru – ac mae'n rhad ac am ddim!

Ariennir Casgliad y Werin Cymru gan Lywodraeth Cymru a'i weithredu fel partneriaeth ffederal rhwng tri chorff treftadaeth cenedlaethol – Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Ategir y wefan gan raglen o weithgareddau sy'n edrych ar ddulliau newydd o gasglu, darganfod a rhannu straeon Cymru a'i phobl.

Mae miloedd o eitemau bellach yn y casgliad ar wefan a ail-lansiwyd yn ddiweddar er mwyn gwella profiad y defnyddiwr.

Ffotograff o gatrawd Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn sefyll o flaen drws gyda'r geiriau 'Cymru am Byth' arno – hawlfraint Archifau Ceredigion

Label potel y gwneuthurwr diodydd o Landudno, T. O. Owen and Son, sefydlwyd ym 1873 – hawlfraint Gwasanaeth Archifau Conwy

Mae'r wefan yn eich galluogi i chwilio drwy holl gynnwys ein casgliad ar-lein, ac yn bwysicach fyth, i gyfrannu deunydd a chreu eich stori ddigidol eich hun. Jig-so yw stori Cymru, ac mae gan bawb ddarn bach ohono, boed yn atgof, llythyr neu hen ffotograff. Eitemau yw'r rhain sy'n aml yn cael eu anghofio, eu colli neu eu taflu, ac mae eu rhannu ar Gasgliad y Werin Cymru yn help i gyfoethogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'i chadw i genedlaethau'r dyfodol.

Glöwr yn golchi mewn bath tun yn ei gartref – hawlfraint Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Côr Meibion Treorci yn yfed gyda Tom Jones, 1969 – hawlfraint Côr Meibion Treorci



Tanni Grey-Thompson – hawlfraint Dilyn y Fflam

www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales